



POLISI FFIOEDD 2020/2021

Dyddiad Cwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:	Mawrth 2020
Cymeradwywyd Gan:	Corfforaeth
Dyddiad Cymeradwyo:	
Awdur:	Mark Williams
Dyddiad Adolygu:	Mawrth 2021

Wedi ei gyhoeddi ar:	Gwefan (✓)	Mewnwyd (✓)	Porth y Dysgwyr (✓)

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais

Efallai na fydd y copi hwn yn gyfredol os yw wedi ei argraffu

COLEG GWENT
POLISI FFIOWEDD 2020/2021

DATGANIAD POLISI

Cyflwyno Polisi Ffioedd ar gyfer 2020/21.

DIBEN A CHWMPAS

Mae'r Polisi Ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer gosod ffioedd dysgu 2020/2021 y Coleg, ac yn rhoi manylion yr amodau ar gyfer hepgor neu ostwng ffioedd dysgu. Mae'r Polisi yn cwmpasu'n fras pob incwm ffioedd dysgu a godir gan y Coleg gan gynnwys AB, AU, AAL, Rhyngwladol a Masnachol.

MANYLION Y POLISI

CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Coleg Gwent yn codi ffioedd yn flynyddol am ei raglenni astudio ac mae'r ffioedd hyn yn gallu newid o flwyddyn i flwyddyn. Gallwch ddod o hyd i Ffioedd Dysgu yn <http://www.coleggwent.ac.uk> ac yn y canllawiau Rhan Amser ac AU.
- 1.2 Nid oes unrhyw ffioedd dysgu na chofrestru yn daladwy i ddysgwyr Cartref ac UE sy'n dilyn rhaglenni addysg bellach **llawn amser** yn Coleg Gwent sydd dros **12** awr yr wythnos. Mae ffi weinyddol o £10 i'w thalu gan bob dysgwr llawn amser, ac efallai y bydd ffioedd cysylltiedig â chwrs am ddeunyddiau, nwyddau traul, dillad arbenigol etc. Mae'r ffi weinyddol hefyd yn berthnasol i gyrsiau sy'n dechrau ar ganol blwyddyn er y gellir eu hepgor mewn rhai achosion gyda chymeradwyaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT). Nid yw'r ffi weinyddol o £10 yn berthnasol i gyrsiau AU.
- 1.3 Nid oes unrhyw ffioedd dysgu yn daladwy o ran cyrsiau **rhan amser wedi'u hariannu** i ddysgwyr cartref ac UE sydd wedi gorffen eu haddysg orfodol ac sydd dros 16 oed ond o dan 19 oed ar 1 o Fedi ar ddechrau'r flwyddyn astudio. Fodd bynnag, mae ffioedd arholi a chofrestru yn daladwy am gyrsiau rhan-amser waeth beth yw'r oedran. Yn ogystal, efallai bydd ffioedd cysylltiedig â chwrs am ddeunyddiau, dillad arbenigol a gwiriadau DBS etc.
- 1.4 Ar gyfer cyrsiau rhan amser heb eu hariannu, pennir y ffi sy'n daladwy yn ôl oedran y dysgwr a pha un ai a yw'r cwrs wedi'i achredu ai peidio. Ni fydd yn rhaid i ddysgwyr 16-18 oed dalu ffioedd dysgu am unrhyw gwrs achrededig ond maent yn dal yn gymwys ar gyfer unrhyw ffioedd cwrs eraill e.e. ffioedd cofrestru neu arholi. Mae'r holl ffioedd yn daladwy am unrhyw gwrs heb ei achredu waeth beth fo oedran y dysgwr.
- 1.5 Codir ffioedd dysgu ar holl ddysgwyr Addysg Uwch HNC/Gradd Sylfaen /TAR ar gyrsiau breiniol yn unol â threfniadau cytundebol y Coleg â'r Brifysgol bartner. Mae amserlen Ffioedd Dysgu Addysg Uwch y Coleg ar gael yn www.coleggwent.ac.uk
- 1.6 Mae ffioedd dysgu dysgwyr tramor ar gael yn www.coleggwent.ac.uk Dylai myfyrwyr sy'n ansicr ynghylch eu statws gyfeirio at gyfarwyddyd sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan www.wales.gov.uk neu gysylltu â Phartner Busnes cyfadran y cwrs o'u dewis (manyion cyswllt ar gael yn www.coleggwent.ac.uk)
- 1.7 Mae'r canllaw Rhan amser yn darparu manylion ynglŷn â phrisiau cyrsiau ac yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o bolisiau cysylltiedig eraill y Coleg. Mae'r polisiau hyn yn cydweithio i ddarparu fframwaith ar gyfer gosod, talu a chasglu ffioedd dysgu.
- 1.8 Mae dysgwyr yn gwbl atebol am dalu eu ffioedd, boed ydynt wedi'u hanfonebu ai peidio, os nad oes Nawdd Cyflogwr neu gyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru (myfyrwyr AU) mewn lle ganddynt.

- 1.9 Efallai na fydd unrhyw ddysgwr sydd â dyled yn cael caniatâd i ymrestru ar unrhyw safle'r Coleg, neu barhau â rhaglen astudiaeth, hyd nes i'r holl ffioedd dyledus gael eu talu.
- 1.10 Ni chodir ffi ar ddysgwr AB llawn amser Coleg Gwent sy'n gwneud cwrs Mathemateg neu Saesneg TGAU. Ar gyfer unrhyw gwrs rhan amser addysg bellach ychwanegol arall y brif ffrwd, boed y cwrs ychwanegol yn berthnasol i'r cwrs llawn amser ai peidio, codir ffioedd (oni bai bod y cwrs rhan amser yn rhan o'r Rhaglen Maes Dysgu llawn amser). Ni chodir ffioedd dysgu ar ddysgwyr o dan 19 oed ond codir unrhyw ffioedd ychwanegol arnynt.
- 1.11 Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gostau yn www.coleggwent.ac.uk
- 1.12 Efallai bydd dysgwyr yn gymwys i dderbyn Hepgoriad Ffi yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a chwrs. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â chymhwysedd am Hepgoriadau Ffioedd yn www.coleggwent.ac.uk. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod Hepgoriadau Ffioedd yn berthnasol yn erbyn Ffioedd Dysgu yn unig. Mae pob ffi arall yn parhau i fod yn daladwy.
- 1.13 **NID YW** hepgoriadau ffioedd yn berthnasol i gyrsiau masnachol dynodedig neu gyrsiau ffioedd uwch lle mae'r dysgwr dros 19 oed.
- 1.14 Efallai fod modd i'r dysgwyr nad ydynt yn gymwys am Hepgoriad Ffi ganfod Cymorth Ariannol arall. Gweler manylion hyn yn www.coleggwent.ac.uk.
- 1.15 Fel rheol, telir ffioedd ar ddechrau pob blwyddyn astudio. Nodir eithriadau i'r rheol gyffredinol hon yn y prospectws.

2. FFIOEDD ARHOLI

- 2.1 Mae'r Coleg yn talu Ffioedd Arholi ar gyfer pob dysgwr llawn amser sy'n sefyll arholiad am y tro cyntaf
- 2.2 Mae'n rhaid i bob dysgwr llawn amser sy'n dymuno ailsefyll arholiad dalu'r ffi arholi berthnasol (oni bai bod amgylchiadau esgusodol yn berthnasol sydd wedi'u cadarnhau gan Bennaeth yr Ysgol). Gellir ail-godi'r ffi arholi ar ddysgwyr hefyd os byddant yn methu â mynychu heb reswm dilys.
- 2.3 Rhaid i bob dysgwr rhan amser (neu eu cyflogwr os ydynt yn cael eu noddi) dalu'r ffi arholi briodol wrth ymrestru.
- 2.4 Mae Ffioedd Arholi yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu a lle bo'n berthnasol, fe'u cynhwysir yn y ffi a godir ar y dysgwr wrth ymrestru ar y cwrs.
- 2.5 Bydd gofyn i ymgeiswyr allanol sy'n sefyll arholiad yn Coleg Gwent dalu ffioedd ychwanegol i dalu am gostau. Ceir manylion am hyn yn www.coleggwent.ac.uk.
- 2.6 Bydd yn rhaid i bob dysgwr lefel AS/A dalu i ailsefyll os ydyw'n dymuno gwella ei radd
- 2.7 Caniateir i ddysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ailsefyll un arholiad/modiwl am ddim (yn unol â threfniadau cyllido Dysgu Seiliedig ar Waith).

3. FFIOEDD COFRESTRU

- 3.1 Mae'r Coleg yn talu Ffioedd Cofrestru ar gyfer pob dysgwr llawn amser.
- 3.2 Rhaid i bob dysgwr rhan amser (neu ei gyflogwr os ydyw'n cael ei noddi) dalu'r ffi Gofrestru briodol wrth gofrestru.
- 3.3 Mae Ffioedd Cofrestru yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu a lle bo'n berthnasol, fe'u cynhwysir yn y ffi a godir ar y dysgwr wrth ymrestru ar y cwrs.

4. TALIADAU

- 4.1 Cesglir ffioedd dysgu gan Coleg Gwent yn unol â'i amserlen ffioedd blynyddol a pholisiau cysylltiedig. Mae ffioedd dysgu yn ddyledus ar adeg ymrestru ac mae'r Coleg yn derbyn yr ystod o ddulliau talu a amlinellir isod:
- Yn bersonol gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd, siec, drafft banc neu arian parod
 - Dros y ffôn drwy gysylltu naill ai â'r campws priodol neu adran Gyllid Ganolog y Coleg sydd wedi'i lleoli ar Gampws Brynbuga (ceir manylion cyswllt yn www.coleggwent.ac.uk)
 - Drwy'r post – Siec neu ddrafft banc (ysgrifennwch enw, rhif adnabod a chwrs y dysgwr ar gefn y siec)
 - Trosglwyddiad banc i fanc – gan ddyfynnu rhif adnabod y Dysgwr fel cyfeirnod
 - Mae rhandaliadau Debyd Uniongyrchol ar gael am isafswm o £20 fesul rhandaliad ac o leiaf 2 rhandaliad. Ceir rhagor o fanylion yn www.coleggwent.ac.uk. Codir ffi o £15 yn awtomatig ar unrhyw Ddebyd Uniongyrchol sy'n diffygdalu.
 - Gellir cysylltu ag adran Gyllid Ganolog y Coleg hefyd gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: salesledger@colegwent.ac.uk.
- 4.2 Nid yw'r Coleg yn derbyn cardiau American Express.
- 4.3 Pan fydd y cyflogwr yn talu ffioedd, rhaid i ddysgwyr sicrhau bod y Coleg yn derbyn **Ffurflen Talu Ffioedd Cyflogwyr** neu fel arall bydd y dysgwr yn cael ei anfonebu ac yn atebol am y cyfanswm sy'n ddyledus. Mae llythyr ar bapur pennawd y Cwmni, neu e-bost gan y cyflogwr, yn awdurdodiad derbyniol hefyd.
- 4.4 Mae'n rhaid i holl ddysgwyr AU sy'n derbyn cymorth ariannol roi copi o'u llythyr hysbysiad ariannol gyda'r pennawd 'Cyngor Taliadau Coleg neu Brifysgol' wrth ymrestru yn Coleg Gwent, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn nodi swm y ffi ddysgu sy'n daladwy gan Gyllid Myfyrwyr. Mae hefyd yn cynnwys y Rhif Cymorth i Fyfyrwyr sydd ei angen i ryddhau taliadau'r ffioedd dysgu a grantiau myfyrwyr. Mae angen i unrhyw ffioedd sy'n weddill gael eu talu'n llawn neu drwy rhandaliadau.
- 4.5 Mae gan y Coleg yr hawl i atal neu wrthod unrhyw drafodion ariannol lle na ellir adnabod na chadarnhau ffynhonnell y taliad.

5. METHU Â THALU FFFIOEDD DYSGU

- 5.1 Yn unol ag adran 1.8, gall dysgwyr sy'n peidio neu'n methu taliadau cytunedig gael eu gwahardd o'r Coleg os nad oes trefniadau boddhaol yn cael eu gwneud gyda'r Adran Gyllid i ddatrys y mater o fethu â thalu. Mae trefniadau boddhaol fel a ganlyn:
- Talu yn llawn neu
 - Wneud trefniadau Debyd Uniongyrchol a thalu'n ôl yn foddhaol a chyson heb ddiffygdalu neu
 - Ddarparu Ffurflen Talu Ffioedd Cyflogwyr (gweler Adran 4.3)
 - Pan fydd noddwr yn methu â thalu cyn pen 60 niwrnod o ddyddiad yr anfoneb, y dysgwr fydd yn atebol ac yn cael ei anfonebu am y ddyled
 - Cytuno ar gynllun ad-dalu gyda'r adran Gyllid
 - Darparu copi o gadarnhad ysgrifenedig o gais i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) am fenthyciad ffi dysgu i dalu'r ddyled (dysgwyr llawn amser AU Cartref a'r UE yn unig) o fewn y tymor cyntaf
 - Darparu prawf o fudd-dal mewn perthynas â hepgoriad ffi posibl
 - Darparu tystiolaeth o dderbyn Benthyciad Datblygu Gyrfa
- 5.2 Ychwanegir tâl ychwanegol o 10% o'r balans sy'n weddill (lleiafswm o £10) os bydd cyfrif dysgwr yn cael ei drosglwyddo i gasglwyr dyledion allanol y coleg (TNC Collections)
- 5.3 Gall unrhyw falans sy'n parhau i fod heb ei dalu ar ôl cyfeirio'r cyfrif at TNC arwain at gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y dysgwr. Mewn sefyllfa o'r fath, codir taliadau llog a gweinyddu dyddiol ar y cyfrif a allai arwain at gyflwyno dyfarniad llys sirol (CCJ) yn erbyn y dysgwr.
- 5.4 Mae rhai cyrsiau ffioedd sy'n ymwneud â chyrсияu 2 flynedd penodol yn daladwy yn llawn wrth ymrestru ac yn talu am 2 flynedd lawn y cwrs. Ni fydd unrhyw ad-daliad ffioedd yn daladwy os na fydd y dysgwr yn dechrau ar ail

flwyddyn cyrsiau o'r fath, oni bai y gellir bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwysu a nodir yn y 'Polisi Ailasesu Ffioedd'.

APELIADAU FFIOEDD

6. AILASESU FFIOEDD

6.1 Ad-delir ffioedd o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

Dysgwyr **AB** sy'n talu eu ffioedd eu hunain:

- Y Coleg ddim yn cynnal y cwrs, neu'n cau cwrs, ar ôl dechrau arni
- Dysgwr yn tynnu'n ôl o'i gwrs cyn pen 3 wythnos ar ôl dechrau cwrs hyd safonol. Lle bo modd, bydd dysgwyr sy'n canfod eu bod ar raglen astudio anaddas yn cael cynnig dewis arall addas.
- Dim ond pan nad yw'r Coleg wedi ysgwyddo'r gwariant cysylltiedig y bydd ffioedd archwilio a chofrestru yn cael eu had-dalu.
- Dysgwyr yn methu â pharhau â'u cwrs oherwydd salwch. Rhaid i geisiadau am ad-daliadau gael eu cefnogi gan gadarnhad ysgrifenedig gan feddyg bod salwch hirdymor yn atal y dysgwr rhag parhau â'i gwrs.
- Dysgwyr sy'n gorfod gadael eu cwrs oherwydd salwch hirdymor aelod o'u teulu, pan mai nhw yw'r prif ofalwr.

Noddwyr sy'n talu ffioedd dysgwyr:

- Y Coleg ddim yn cynnal y cwrs, neu'n cau cwrs, ar ôl dechrau arni

Mae'n ofynnol i **ddysgwyr AU** sy'n dod â'u hastudiaethau i ben (tynnu'n ôl, gohirio a throsglwyddo) dalu ffioedd fel a ganlyn:

Cyrsiau HNC/HND Llawn Amser a Rhan Amser a chyrsiau Diploma Cyntaf:

- Cyfnod o ewyllys da hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** (yn unol â'r brifysgol) – atebolrwydd ffioedd dysgu o 0%
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl y cyfnod o ewyllys da hyd at ddiwedd Tymor 1 – atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 25%
- Unrhyw bresenoldeb yn Nhymor 2 – atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 50%
- Unrhyw bresenoldeb yn Nhymor 3 – atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 100%

Myfyrwyr Cyllid a Phroffesiynol Rhan Amser (AAT):

- Cyfnod o ewyllys da hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** – atebolrwydd ffioedd dysgu o 0%
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl y cyfnod o ewyllys da ond cyn pen 4 wythnos addysgu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs - atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 25%
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl 4 wythnos addysgu ond cyn pen 8 wythnos addysgu ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs - atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 50%
- Unrhyw bresenoldeb ar ôl 8 wythnos addysgu o ddyddiad dechrau'r cwrs - atebolrwydd ffioedd dysgu llawn o 100%

Ym mhob sefyllfa arall bydd y dysgwr yn atebol am ffi llawn y cwrs.

